**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/10617/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Mae'n ofynnol i Reoliadau Trefniadaeth Gyffredin y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025 ddiwygio deddfwriaeth ddomestig a'r UE sy'n cael ei chymhathu i ymestyn cyfnodau gras ymhellach ar gyfer Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig a fydd yn dod i ben ar 1 Chwefror 2025.

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i ymestyn cyfnodau gras sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i ofynion mewnforio ar gyfer hopys a chynhyrchion hopys a allforiwyd gan yr UE a rhai trydydd gwledydd i Brydain Fawr, dofednod gydag arwyddion dewisol a allforiwyd o'r UE i Brydain Fawr a chynhyrchion organig a allforiwyd o'r UE, taleithiau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE") a'r Swistir i Brydain Fawr.

Er bod gan Lywodraeth Cymru y gallu i ddeddfu ar y rheoliad hwn, mae'n bwysig osgoi anghysondebau diangen rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr o ran rheoleiddio technegol oherwydd natur gydgysylltiedig y farchnad organig. Mae'r OS arfaethedig yn bwriadu ymestyn dyddiad dod i ben y rheoliadau sydd eisoes ar waith, yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd, ac felly ni fydd unrhyw newid ymarferol i'r status quo.

Bydd yr OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a wnaed a chynigir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ei bod yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar 9 Ionawr 2025. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn DEFRA i oruchwylio'r modd y caiff yr OSau eu cyflawni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi, gan fod y gwelliannau hyn yn hawddfreintiau argyfwng dros dro, fy mod yn rhoi fy nghaniatâd, yn unol ag Erthygl 38a(3) o Reoliad a ddargedwir (UE) 834/2007, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn mewn perthynas â Chymru.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni a Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs